Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Ynyshir / Aberllechau**

**Pafiliwn Bowlio Aberllechau**
**Parc Aberllechau**
**Aberllechau**
**CF39 0RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Ynyshir / Aberllechau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Jayne Beer |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Chwefror 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu cyffrous.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn parchu'r plant yn eu gofal.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd uchel y tu mewn a'r tu allan yn annog y plant i chwarae a datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hybu iechyd a llesiant y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r person â chyfrifoldeb yn helpu'r staff i wneud eu gwaith yn dda. Mae'r rhieni yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y gwasanaeth gorau ei ddarparu i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth eang o weithgareddau. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgaredd i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r plant yn mynd at y staff ac yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi pob ymdrech ganddynt i gyfathrebu. Er enghraifft, gwelsom y staff yn ymateb i blentyn a oedd yn dangos diddordeb mewn blociau adeiladu, gan ddod â'r fasged allan i'r plentyn allu chwarae â nhw.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes. Er enghraifft, mae'r plant sy'n cynhyrfu neu'n ei chael hi'n anodd setlo pan fyddant yn cyrraedd yn mynd at y staff i gael cysur. Maent yn gyfarwydd iawn â'r staff ac mae hynny'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac yn mwynhau'r drefn honno. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwisgo eu cotiau yn llawn cyffro er mwyn mynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dechrau parchu ei gilydd ac adnoddau'r lleoliad. Gwelsom dystiolaeth ar ffurf ffotograffau o'r plant yn cefnogi ei gilydd yn ystod gweithgaredd ioga.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran ym mhob ystafell ac yn yr ardal awyr agored. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom fod y plant wrth eu bodd yn chwarae. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn llenwi ac arllwys cynwysyddion â reis coch i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Caiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth dda o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael cyfleoedd i ddod yn annibynnol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn system byrbryd dreigl, gan weini eu bwyd a'u diodydd eu hunain a dewis rhwng y llaeth neu'r dŵr a gynigir. Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain, er enghraifft, gwelsom y plant yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl amser byrbryd ac yn brwsio eu dannedd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Maent yn gymwys i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn dilyn y gweithdrefnau sydd ar waith i hybu lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran eu rôl amddiffyn plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad drwy roi gwybod am unrhyw achosion a chwblhau'r gwaith papur perthnasol i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau a'r prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn briodol. Mae pob aelod o'r staff yn darllen y polisïau ac yn cydymffurfio â nhw o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant yn eu gofal, gan eu trin nhw a'i gilydd â pharch a charedigrwydd. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau y caiff arferion o ansawdd uchel eu cynnal drwy gydol pob dydd. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng nghyflawniadau'r plant ac yn ymateb yn frwdfrydig pan fydd plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd â nhw. Er enghraifft, gofynnodd aelod o'r staff gwestiynau am y llyfr 'Y Tri Arth' roedd yn ei ddarllen gyda grŵp bach o blant. Gofynnodd i'r plant, "*have you got a cadair (chair) in your house?"* ac wrth i blentyn enwi'r cymeriadau o'r stori, "*daddy bear, baby bear*", ymatebodd yr aelod o staff drwy ofyn, "*why do you think that's daddy bear*?" Atebodd y plentyn gan ddweud, "*big"*. Gwenodd yr aelod o staff a chanmolodd y plentyn am gymryd rhan yn y gweithgaredd.

Mae'r staff yn gefnogol, yn fagwrus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u datblygiad. Maent yn cofnodi ac yn nodi cynnydd y plant, ynghyd â'u mannau cychwyn pan fyddant yn dechrau mynychu'r lleoliad a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r staff yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael gan yr awdurdod lleol i gael cyngor, arweiniad a hyfforddiant er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i'r plant sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau, gan ystyried mewnbwn gan y plant a'u diddordebau. Fodd bynnag, ni chaiff y broses gynllunio ei chofnodi'n ffurfiol. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn gryf ym mhob rhan o'r lleoliad.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r staff yn sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig a gaiff ddod i mewn i'r lleoliad a hynny drwy fynedfa ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle a gweithgareddau'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hadolygu na'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r staff yn sicrhau bod gwiriadau a thystysgrifau diogelwch cyffredinol ar waith ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau, gan gynnwys yswiriant. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos hyn.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar iawn i blant. Mae wedi'i addurno'n dda gyda lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r lleoliad. Mae'r ystafell chwarae yn fawr ac yn olau, gan gynnig gofod mawr a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ystafell yn drefnus ac wedi'i gosod mewn modd diddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd a datblygiad y plant, a'u hannog i archwilio. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a llyfrau pwrpasol y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r cyfarpar dan do yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant gyda grisiau yn yr ystafell chwarae sy'n arwain at gilfach glyd. Mae gan yr ardal awyr agored amrywiaeth dda o gyfarpar, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae adnoddau ar gael i'r plant yn yr awyr agored sy'n eu hannog i ddatblygu eu sgiliau echddygol bras fel gweithgareddau neidio, ardal chwarae tywod a dŵr a lle mawr i reidio beiciau a threiciau neu redeg o gwmpas.

Mae'r staff yn sicrhau bod y teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar yn y lleoliad mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac o ansawdd uchel. Maent yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau, cadeiriau, toiledau a sinciau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn arwain y tîm o staff yn dda. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y Person â Chyfrifoldeb wrthym fod y Person Cofrestredig yn gefnogol ac ar gael bob amser. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a'u teuluoedd yn glir ac yn gywir. Ar adeg yr arolygiad, roedd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthi'n trafod newid i statws cyfreithiol y gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae'r arweinwyr yn cwblhau'r holl wiriadau cyn cyflogi perthnasol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae ganddynt system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae gan yr arweinwyr system ar waith i olrhain hyfforddiant gorfodol. Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn cynnal sesiynau goruchwylio un i un gyda'r staff, sy'n eu galluogi i drafod pryderon, materion diogelu a chyfleoedd hyfforddi. Fodd bynnag, ni chânt eu cynnal yn rheolaidd ac ni chânt bob amser eu cofnodi'n ffurfiol. Ers yr arolygiad, mae'r Person â Chyfrifoldeb wedi dweud wrthym ei bod wedi cynnal sesiynau goruchwylio gyda'r staff a'i bod wedi eu cofnodi'n ffurfiol.

Mae adroddiad ar ansawdd y gofal ar gael, sy'n dathlu cyflawniadau'r lleoliad ac yn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried safbwyntiau'r plant, y staff a'r rhieni.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y Person â Chyfrifoldeb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd ac yn rhannu syniadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal gyda'r plant. Mae'r lleoliad wedi ennyn ymddiriedaeth y rhieni ac wedi sefydlu cysylltiadau cyfathrebu da â nhw. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn hapus iawn gyda’r gwasanaeth a ddarperir i’w teuluoedd. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi cymorth ac adborth y staff ar ddatblygiad eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y gwaith cynllunio yn cael ei gofnodi'n ffurfiol |
| Safon 6 - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio staff eu cynnal yn rheolaidd ac y cânt eu cofnodi'n ffurfiol |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/03/2024